# 2017 Uwchgynhadledd Twristiaeth Cymru.




#UTCymru2017

# Croeso gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, Ken Skates.

**Croeso cynnes iawn ichi i gyd i'r Uwchgynhadledd Twristiaeth ac i'r rheini ohonoch sydd wedi teithio dros y ffin, Croeso i Gymru / Welcome to Wales.**



Mae'r digwyddiad hwn, sy'n cael ei gynnal yn ystod ein Blwyddyn Chwedlau, ar gyfer arweinwyr y diwydiant twristiaeth, sy'n sector hynod bwysig o economi Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r economi sy'n cael ei hybu gan ymwelwyr ac rwy'n ei hystyried yn hanfodol i dwf economaidd Cymru yn y dyfodol.

Mewn marchnad hynod gystadleuol, mae Cymru yn dal i fod yn boblogaidd ymhlith twristiaid. Rydym wedi cael y ddwy flynedd orau erioed a'n nod yw cynnal y twf hwn. Gan ystyried ymweliadau dydd gan dwristiaid, ymwelwyr rhyngwladol yn ogystal ag ymweliadau dros nos gan Brydeinwyr, mae'r sefyllfa gyffredinol yn dangos bod cynnydd o bron 16% yn nifer cyffredinol y twristiaid yng Nghymru yn ystod tri chwarter cyntaf 2016.

Heddiw, byddwch yn cael bod yn rhan o sgyrsiau a thrafodaethau panel a fydd yn peri ichi feddwl. Eu nod yw sicrhau bod y diwydiant twristiaeth yng Nghymru yn parhau i fod ar flaen y gad o ran y tueddiadau a'r heriau yn y farchnad ddomestig a rhyngwladol.

Rwy'n gobeithio y byddwch yn mwynhau'r uwchgynhadledd ac yn gadael yma heddiw wedi eich ysbrydoli i barhau i hybu'r economi ymwelwyr a rhoi profiad wirioneddol Gymreig i'r nifer cynyddol o bobl sy'n ymweld â Chymru.

**Ken Skates AC**
Ysgrifennydd y Cabinet
dros yr Economi a'r Seilwaith

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Agenda.



Fforest, Ceredigion.

| | |
|---|---|
| 09:45 | **Cyflwyniad** |
| 09:50–10:05 | **Croeso**<br>Ken Skates AC – Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, Llywodraeth Cymru |
| 10:05–10:15 | **Wythnos Twristiaeth Cymru**<br>Adrian Barsby – Cadeirydd, Cynghrair Twristiaeth Cymru |
| 10:15–10:40 | **Problemau Brexit a chyfleoedd wedi Brexit**<br>Kurt Janson – Cyfarwyddwr, Cynghrair Twristiaeth Cymru |
| 10:40–11:10 | **Cadw Cymru yn Rhyngwladol**<br>Laura Lindsey – Cyfarwyddwr Cyfathrebu Byd-eang, Lonely Planet |
| 11:10–11:45 | **Tueddiadau Twristiaeth**<br>Simon Calder – Uwch-olygydd Teithio The Independent, Darlledwr Teledu a Radio |
| 11:45–12:05 | **Egwyl***  |
| 12:05–12:35 | **Gwella syniad pobl o yrfa mewn twristiaeth**<br>William McNamara – Prif Swyddog Gweithredol, Parc Cenedlaethol Bluestone, Sir Benfro |
| 12:35–13:05 | **Prinder pobl**<br>Arwyn Watkins – Llywydd, Blas ar Gymru |
| 13:05–14:00 | **Cinio Rhwydweithio*** |
| 14:00–14:30 | **Gwerthu yn rhyngwladol – manteisio i'r eithaf ar eich potensial yn y farchnad**<br>**Trafodaeth banel gyda:**<br>Holger Lenz – Rheolwr Canolbarth Ewrop, Visit Britain<br>Emily Moore – Pennaeth Trafod gyda Phartneriaid y Cenedlaethau a'r Rhanbarthau, VisitBritain<br>Lauren Summers – Rheolwr Marchnata Gogledd America, Croeso Cymru<br>Aled Rees – Rheolwr-gyfarwyddwr, Teithiau Cambria |
| 14:30–15:00 | **The Wild Atlantic Way**<br>Fiona Monaghan – Pennaeth Rhaglen the Wild Atlantic Way, Fáilte Ireland |
| 15:00–15:15 | **Egwyl*** |
| 15:15–15:45 | **Ychwanegu gwerth at eich busnes – cyfle i ddatblygu marchnad wahanol**<br>**Trafodaeth banel gyda:**<br>Jill Manley – The Celtic Manor Resort<br>James Lynch – Sylfaenydd Fforest<br>Adrian La Trobe – Venue Cymru, Llandudno<br>Faye Tanner – Swyddog Twristiaeth Busnes, Cyngor Caerdydd |
| 15:45–16:05 | **Themâu "Blynyddoedd…" Croeso Cymru**<br>Laura Pickup – Pennath Marchnata Twristiaeth, Croeso Cymru |
| 16:05–16:15 | **Sylwadau cloi** |

*Gweler y dudalen nesaf.

# Rhagor o wybodaeth.



Bunch of Grapes, Pontypridd.

## *Canolfan Cynghori Galw i Mewn – Ystafelloedd y Gerddi

Os ydych angen unrhyw gyngor busnes heddiw, ewch i'n timau yn Ystafelloedd y Gerddi yn ystod yr egwyl ac amser cinio. Y timau ar gael yw:

—Cynghrair Twristiaeth Cymru

—Datblygiad Croeso Cymru – Cynllun Cymorth Buddsoddi Mewn Twristiaeth; Sicrwydd Ansawdd

—Marchnata Croeso Cymru – Cymru/DU/Iwerddon; Yr Almaen; UDA; Marchnadoedd Newydd; Blynyddoedd â Themâu; Digwyddiadau Busnes; Y Diwydiant Teithio

—VisitBritain

## Arddangosfa chwedlonol o fwyd a diod Cymru

Gwnewch y siŵr eich bod hefyd yn gweld Arddangosfa Bwyd Cymru yn Ystafell Powys – ar gael gydol y dydd.

Wedi'i drefnu gan Fwyd a Diod Cymru a Chroeso Cymru fel rhan o'r Flwyddyn Chwedlau. Mae bwyd a diod Cymru'n yn creu profiad unigryw i dwristiaid pa un ai a yw ar y fwydlen neu ar silff mewn siop. Fe'ch gwahoddir i weld Arddangosfa o gynnyrch bwyd a diod o Gymru gyda chyfle i flasu:

—Arddangosfa o gynnyrch bwyd a diod

—Ystod o gategorïau yn cynnwys: Cawsiau Cymreig a chynnyrch llaeth; cwrw, gwinoedd, seidr a gwirodydd Cymreig; diodydd ysgafn ddi-alcohol; byrbrydau a bwyd wedi'i bobi; melysion; jamiau; cigoedd arbennig a llawer iawn mwy...

—Cynhwysion Pen-gogyddion


—Y cynnyrch NEWYDD diweddaraf

—Cynnyrch "rhydd o"

—Cynnyrch anrhegion i fwydgarwyr a syniadau ar gyfer pecyn cynnyrch croeso

—Cynnyrch Enw Bwyd Gwarchodedig

# Siaradwyr.



Canolfan Owain Glyndŵr, Machynlleth.



01–



02–

## 01–Adrian Barsby

### Cynghrair Twristiaeth Cymru

Ar ôl treulio blynyddoedd cynnar ei hyfforddiant gyda Gwestai Rank, Gwestai Ladbrook a Gwestai Hilton, cafodd Adrian ei ddyrchafu o fod yn borthor i Reolwr Cyffredinol mewn 12 mlynedd. Dilynwyd gyrfa lwyddiannus gyda chwmnïau corfforaethol mawr gyda chyfnod o ddatblygu cwmnïau gwesty llwyddiannus i berchnogion preifat gan arwain at redeg sefydliadau blaenllaw ledled Cymru, yr Alban a Lloegr. Yn ystod y cyfnod hwn, daeth Adrian yn weithgar mewn sefydliadau busnes fel y Siambr Masnach, IoD a chyfrannodd hefyd at ddatblygu economaidd rhanbarthol.

Ers dechrau'r 1990au, mae Adrian wedi bod yn ddarlithydd ar ymweliad ym Mhrifysgol Fetropolitan Manceinion ac fel Darlithydd Cyswllt, yn ddiweddar, mae wedi cyflwyno pynciau fel; Strategaeth Marchnata Cystadleuol Ryngwladol, Rheoli ac Arloesi Twristiaeth Strategol, Creadigrwydd ac Entrepreneuriaeth. Mae hefyd wedi cynnal prosiectau datblygu economaidd i'r Cyngor Prydeinig ym Mwlgaria ac mae wedi cyflwyno gweithdai a seminarau niferus ar ran cangen o Ymddiriedolaeth Savoy ar draws gwledydd blaenorol y Bloc Sofietaidd.

Symudodd Adrian i Gymru ym 1994 lle bu'n rhedeg grŵp o westai. Cafodd y cwmni gydnabyddiaeth fel sefydliad Buddsoddwr mewn Pobl blaenllaw ac enillodd Cyflogwr y Flwyddyn 2001. Cadeiriodd Twristiaeth Gogledd Cymru yn ystod cyfnod o drawsnewid o fod yn gwmni wedi ei ariannu'n gyhoeddus yn rhannol i fod yn gwmni sector preifat.

Am y 10 mlynedd diwethaf, mae Adrian wedi gweithredu Barsby Associates Ltd, cwmni sy'n arbenigo mewn cymorth busnes ar gyfer twristiaeth a lletygarwch. Mae'r cwmni wedi mentora bron 200 o fentrau yn ystod y cyfnod hwn ac mae wedi helpu trawsnewid perfformiad cwmnïau o bob maint ledled y DU. Ar ddiwedd 2015, daeth Adrian yn gadeirydd Cynghrair Twristiaeth Cymru ac mae'n edrych ymlaen at yr her o gynrychioli buddiannau tua 6,000 o fentrau Twristiaeth Cymru i Lywodraeth Cymru a'r DU.

## 02–Kurt Janson

### Cyfarwyddwr, Tourism Alliance

Ar ôl graddio gyda Gradd Meistr dosbarth cyntaf mewn Polisi Cyhoeddus ym Mhrifysgol Lincoln (Seland Newydd), gweithiodd Kurt i Adran Gadwraeth Seland Newydd yn datblygu a gweithredu strategaethau ar gyfer rheoli Parciau Cenedlaethol Seland Newydd. Cafodd ei gyflogi wedi hynny gan Fwrdd Twristiaeth Seland Newydd i ddatblygu strategaethau twristiaeth cenedlaethol a rhanbarthol cyn symud i Brydain ym 1997 i weithio fel Rheolwr Polisi i VisitEngland a VisitBritain. Ar ôl i'r ddau sefydliad wahanu, daeth yn Bennaeth Cynllunio Strategol i VisitBritain, yn gyfrifol am Bolisi, Strategaeth, Twristiaeth Gynaliadwy, Cynllunio Busnes a Gwerthuso Marchnata.

Gadawodd Kurt VisitBritain yn 2004 i fod yn Gyfarwyddwr y Tourism Alliance, cymdeithas fasnachu ambarél i'r sector twristiaeth a lletygarwch sydd yn cynnwys dros 50 o gymdeithasau'r diwydiant sydd gyda'i gilydd yn cynrychioli bron 200,000 o fusnesau o bob maint ledled y DU i lobïo'r Llywodraeth am faterion sy'n cefnogi datblygiad diwydiant twristiaeth y DU.







## 03–**Laura Lindsey**

### Cyfarwyddwr Cyfathrebiadau Byd-eang, Lonely Planet

Mae Laura yn deithiwr brwd ac mae wedi gweithio yn y diwydiant teithio am bron degawd yn gymysg ag ymweld â thros 40 o wledydd. Mae'n angerddol am flasu bwydydd lleol a mynychu digwyddiadau chwaraeon. Ei hoff wlad yw Belize. Gyda gradd meistr mewn Daearyddiaeth, mae'n feistr ar ddefnyddio map hefyd! Mae ar hyn o bryd yn gofalu am frand Lonely Planet yn y cyfryngau ac mae hefyd yn rheoli ymgyrch mwyaf y cwmni, Best in Travel.

## 04–**Simon Calder**

### Uwch Olygydd Teithio, The Independent, Darlledwr Teledu a Radio

Simon Calder yw sylwebydd teithio mwyaf blaenllaw Prydain.

Dechreuodd ei yrfa ym maes awyr Gatwick, yn glanhau awyrennau ar gyfer Syr Freddie Laker ac, yn ddiweddarach, bu'n archwilio teithwyr (fel gwaith, hynny yw; nid hobi). Yna dechreuodd ysgrifennu llyfrau teithio ac erthyglau teithio.

Heddiw, mae Simon yn Uwch Olygydd Teithio i'r Independent ac mae'n cael ei adnabod fel "y dyn sy'n talu ei ffordd", sy'n golygu ei fod yn talu am ei deithiau ei hun i gyd.


Mae Simon hefyd yn ysgrifennu i'r Evening Standard, papur newydd 'i', Waitrose Weekend a chylchgrawn hedfan BA, High Life ac amrywiaeth o gyhoeddiadau eraill.

Unwaith y mis, mae'n cyflwyno adran Global Guru o'r Travel Show (BBC Worldwide a BBC2) lle mae'n ateb cwestiynau ac ymholiadau teithio'r gwylwyr.

Mae Simon hefyd yn westai rheolaidd ar deledu cenedlaethol, yn ymddangos yn gyson ar BBC Breakfast News, Good Morning Britain, ITV News, CNN a Sky News. Mae'n cael ei gyfweld yn aml ar radio'r BBC, yn arbennig i BBC Radio 4 a BBC Radio Five.

Gallwch ddilyn Simon ar Twitter (@SimonCalder).




## 05–**William McNamara**

### Prif Swyddog Gweithredol, Parc Cenedlaethol Bluestone, Sir Benfro

Mae William McNamara yn entrepreneur a anwyd yn Sir Benfro, a wnaeth arallgyfeirio o ffermio yn 1987. Creodd William Barc Thema Oakwood, a'i sefydlu yn y deg uchaf o barciau thema yn y Deyrnas Unedig, cyn gadael y busnes yn 2002 i ddatblygu Parc Cenedlaethol Bluestone.

Erbyn hyn mae Bluestone yn eicon cydnabyddol Cymreig gan ddenu dros 140,000 o westeion i aros bob blwyddyn yn ogystal â 120,000 o ymwelwyr diwrnod i Barc Ddŵr Blue Lagoon.

Mae Bluestone wedi ennill sawl gwobr amgylcheddol genedlaethol, Gwobr Aur Buddsoddwyr mewn Pobl, Gwobr Iechyd Corfforaethol a gwobr gan CIPD dros Ymgysylltu Eithriadol â Chyflogeion.

Mae Bluestone yn cyflogi dros 700 o bobl ac mae'n un o fusnesau lletygarwch pennaf Cymru.

## 06–**Arwyn Watkins**

### Llywydd Cymdeithas Celfyddyd Coginio Cymru

Ym mis Ebrill 2015, cafodd Arwyn yr anrhydedd o gael ei ethol yn Llywydd Cymdeithas Celfyddyd Coginio Cymru, yn dilyn ei ymddeoliad fel cynghorydd allweddol i Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (NTfW) y bu'n gadeirydd arno yn flaenorol; Arwyn yw Rheolwr-gyfarwyddwr a Chadeirydd Cwmni Hyfforddiant Cambrian, enillydd Darparwr Prentisiaeth y Flwyddyn yng Ngwobrau Prentisiaethau 2013.

Mae Arwyn yn Aelod o Fwrdd Strategol Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru, Cyfarwyddwr ac Ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth Bwyd Prydain.

Wedi ei leoli yn y Trallwng, gweithgaredd craidd Cwmni Hyfforddiant Cambrian yw cyflenwi rhaglenni prentisiaeth a chyfleoedd Twf Swyddi Cymru i Adran Addysg a Sgiliau (DfES) Llywodraeth Cymru.

Mae Arwyn yn sicr mai cryfder y cwmni yw ei berthynas waith agos â diwydiant a'r gymuned ehangach, sydd yn hanfodol i ddyfodol cynaliadwy lle mae anghenion hyfforddiant yn cael eu harwain gan alw nid cyflenwad.

Mae Arwyn yn fab i ffermwr, a gadawodd Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-muallt ym 1978 i ymuno â'r Fyddin fel pen-cogydd ar brentisiaeth ac mae wedi cadw at ei ymrwymiad i raglenni prentisiaeth trwy gydol ei fywyd gwaith gyda ffocws cryf iawn ar ddatblygu pobl. Mae'n parhau i hyrwyddo rhaglenni prentisiaeth fel y safon aur mewn busnes a diwydiant.

Yn 2004, bu'n hyfforddwr ac yn fentor i'r Tîm Celfyddyd Coginio Cenedlaethol Iau, a wnaeth ennill eu Medal Aur Olympaidd cyntaf ac roedd yn dyngedfennol yn cynnal rhaglen beilot yng Nghymru, sydd wedi arwain at brentisiaeth arloesol i ben-cogyddion mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Fwyd Prydain a Pearson.



## 07–**Fiona Monaghan**

### Pennaeth Rhaglen the Wild Atlantic Way, Fáilte Ireland


Yn enedigol o Ddinas Galway, Iwerddon, astudiodd Fiona ym Mhrifysgol Genedlaethol Iwerddon, Galway, lle graddiodd gyda B.Comm a Diploma mewn Ymarfer Marchnata. Yna aeth ymlaen i gael Gradd Meistr mewn Astudiaethau Busnes yn ysgol Fusnes i Raddedigion Michael Smurfit yng Ngholeg y Brifysgol, Dulyn. Tra'n byw ac yn gweithio yn yr Unol Daleithiau, cafodd Fiona ddiploma mewn Marchnata Chwaraeon o Ysgol Addysg Barhaus a Phroffesiynol Prifysgol Efrog Newydd (NYU).

Mae Fiona wedi gweithio yn y sector twristiaeth am 20 mlynedd yn yr Unol Daleithiau ac yn Iwerddon. Ar ôl cwblhau ei MBS ym 1995, derbyniodd Fiona swydd Cyfarwyddwr Gwerthiannau i Ogledd America gyda Grŵp Gwestai Doyle yn Washington DC a gweithiodd gyda'r sefydliad trwy gaffael gwesty blaenllaw yn Washington DC ac wedi hynny yn ystod yr uniad gyda Grŵp Gwestai Jurys ym 1999.

Ar ddiwedd 1999, symudodd i Efrog Newydd i dderbyn Swydd Rheolwr Hyrwyddo Masnach gyda Bwrdd Twristiaeth Iwerddon. Yn 2001, unodd Bwrdd Twristiaeth Iwerddon/Bord Fáilte gyda Bwrdd Twristiaeth Gogledd Iwerddon i ffurfio Twristiaeth Iwerddon a gwnaeth Fiona nifer o swyddi yn y sefydliad newydd yn cynnwys Rheolwr Cynllunio a Strategol a Hysbysebu cyn dychwelyd i Iwerddon yn 2007 i dderbyn swydd Pennaeth Gweithrediadau gyda Fáilte Ireland yng Ngorllewin Iwerddon. Hyd at ddiwedd 2013, Fiona oedd cyd-gadeirydd menter Llynnoedd a Dyfrffyrdd Mewndirol yn gyfrifol am ddatblygu a hyrwyddo Llynnoedd a Dyfrffyrdd Mewndirol Iwerddon. Yn fwyaf diweddar, penodwyd Fiona yn Bennaeth rhaglen Wild Atlantic Way, un o dri Brand Profiad strategol a ddatblygwyd gan Fáilte Ireland.

Mae'r Wild Atlantic Way yn Frand Profiad newydd a ddatblygwyd gan Fáilte Ireland i becynnu a chyflwyno Gorllewin Iwerddon fel profiad twristiaeth unigol ar raddfa. Mae hanfod y prosiect yn seiliedig ar dirwedd a morlun Gorllewin Iwerddon ac mae ymgysylltu cymunedol a datblygu cynaliadwy yn greiddiol i'r prosiect. Mae'r prosiect, a lansiwyd yn 2014, wedi gwefreiddio sector twristiaeth Iwerddon a'r cyhoedd yn Iwerddon ac mae wedi ennill nifer o wobrau blaenllaw yn cynnwys Gwobr y Llywydd yng ngwobrau Sefydliad Tirwedd Iwerddon 2015 a Gwobr y Sefydliad Cynllunio Cenedlaethol 2016 am Dwristiaeth a Datblygu Economaidd.

Yn ei hamser hamdden, mae Fiona yn mwynhau nofio mewn môr agored ar hyd y Wild Atlantic Way ac mae'n gefnogwr brwd o dîm Rygbi Connacht a thîm Hyrlio Galway.



## 08–**Laura Pickup**

### Pennaeth Marchnata Twristiaeth, Croeso Cymru

Ymunodd Laura â Croeso Cymru ym mis Mehefin 2016 ar ôl treulio dros 15 mlynedd yn arwain gwaith marchnata rhai o frandiau bwyd a diod mwyaf eiconig Cymru gan gynnwys Dynodiad Daearyddol Gwarchodedig Cig Oen a Chig Eidion Cymru, Rachel's Organic a Dŵr Mwynol Naturiol Tŷ Nant.

Mae ganddi brofiad o farchnata brandiau trwy ddulliau B2B a B2C, o fewn y DU ac mewn marchnadoedd rhyngwladol, ac mae ganddi hefyd brofiad helaeth o farchnata o fewn partneriaethau gyda brandiau byd eang uchel eu proffil. Agwedd arall ar ei phrofiad yw rheoli digwyddiadau mawr.

Yn 2013 sefydlodd Laura ar y cyd ag eraill ŵyl The Big Tribute – sef gŵyl gerddorol i deuluoedd ar benwythnos yn Aberystwyth sydd bellach yn denu dros 5000 o ymwelwyr i ganolbarth Cymru bob blwyddyn.

## Nodiadau

# Twristiaeth Cymru.



Llyn Gwynant, Caernarfon.

## Ffigyrau a thueddiadau allweddol 2015

—10.5 miliwn ymweliadau dros nos o Brydain
—75 miliwn ymweliadau dydd
—970,000 ymweliadau rhyngwladol

—£1,975 miliwn wedi ei gwario ar deithiau dros nos o Brydain
—£2,715 miliwn wedi ei gwario ar ymweliadau dydd
—£410 miliwn wedi ei gwario ar ymweliadau rhyngwladol

Ffynhonnell Data: Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr 2015, Arolwg Ymweliadau Undydd Prydain Fawr, Arolwg Teithwyr Rhyngwladol 2015

—9.2 allan o 10 boddhad gyda Chymru yn gyffredinol fel lle i ymweld ag ef (ymwelwyr dros nos o Brydain)
—9.3 allan o 10 boddhad gyda Chymru yn gyffredinol fel lle i ymweld ag ef (ymwelwyr dydd)
—9.0 allan o 10 boddhad gyda Chymru yn gyffredinol fel lle i ymweld ag ef (ymwelwyr rhynwgladol)

Ffynhonnell Data: Arolwg Ymwelwyr Cymru 2016

## Darganfod mwy…

### … am ymwelwyr dros nos o Brydain Fawr
**Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr**
http://gov.wales/statistics-and-research/great-britain-tourist-survey/?lang=cy

### … am agweddion a profiadau ymwelwyr
**Arolwg Ymwelwyr Cymru 2016**
http://gov.wales/statistics-and-research/wales-visitor-survey/?lang=cy

### … am ymwelwyr dydd
**Arolwg Ymweliadau Undydd Prydain Fawr**
http://gov.wales/statistics-and-research/great-britain-day-visits-survey/?lang=cy

### … am adborth o'r sector twristiaeth
**Baromedr Twristiaeth**
http://gov.wales/statistics-and-research/tourism-barometer/?lang=cy

### … am canlyniadau rhanbarthol
**Proffiliau Twristiaeth Rhanbarthol**
http://gov.wales/statistics-and-research/local-authority-tourism-profiles/?lang=cy

Clawr: Parc Margam, Castell-nedd Port Talbot.

croeso.cymru

WG31864 / © Hawlfraint y Goron 2017